# Mae cofnodi gwartheg yn symud i EIDCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O fis **Tachwedd 2026** ymlaen, os ydych yn cadw gwartheg yng Nghymru, bydd y ffordd yr ydych yn cofnodi eu genedigaethau, symudiadau a’u marwolaethau yn newid. Yn hytrach na defnyddio **Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)** a’r **System Olrhain Gwartheg (CTS),** bydd popeth yn cael ei wneud drwy **EIDCymru**.



Dull graddol ar gyfer pontio llyfn:

**Dyddiadau Pwysig**

- **O fis Gorffennaf 2026 – Gwiriwch eich statws BVD:**
  Bydd ceidwaid yn gallu mewngofnodi i EIDCymru a gweld statws eu daliad a'u hanifeiliaid ar ôl i'r Gorchymyn Dolur Rhydd Firysol Buchol (Cymru) ddod i rym.
- **O fis Tachwedd 2026 – Gwartheg yn symud i EIDCymru**
  Bydd yr holl wybodaeth gyfredol am fuchesi sydd ar CTS yn trosglwyddo i EIDCymru. Unwaith y bydd y pontio wedi'i gwblhau, mi fydd rhaid rhoi gwybod i EIDCymru am yr holl enedigaethau, symudiadau a marwolaethau.

## Beth Sydd Angen Ichi Ei Wneud Nawr

- Gwiriwch eich cyfrif CTS – gwnewch yn siŵr bod manylion cyswllt a chofnodion gwartheg yn gywir.
- Os ydych eisoes yn defnyddio EIDCymru ar gyfer defaid – adolygwch a diweddarwch fanylion eich cyfrif.
- Os nad oes gennych gyfrif EIDCymru, peidiwch poeni, byddwn yn cysylltu â chi gyda cyfarwyddiadau beth i’w wneud cyn y trosglwyddo.

## Gwybodaeth Bwysig

- Bydd ceidwaid Cymru yn derbyn arweiniad pellach dros yr haf.
- Bydd cymorth a chefnogaeth ar gael i'ch cynorthwyo a’r newid hwn. Cadwch lygad ar:
  - Dudalennau Llywodraeth Cymru ynghylch symud a chofrestru gwartheg
  - Tudalen Facebook Materion Gwledig
  - e-gylchlythyr GWLAD
  - Llyfrynnau Diweddariadau Tymhorol
  - Gwefan a thudalen Facebook EIDCymru.
- Mae Lloegr hefyd yn datblygu eu system olrhain da byw amlrywogaeth eu hunain, y Gwasanaeth Gwybodaeth Da Byw (LIS). Am ragor o wybodaeth: Livestock Information Transformation Programme (LITP) – GOV.UK.

**EIDCymru – Cefnogi Amaethyddiaeth Cymru**

Am ragor o wybodaeth: cymorth@eidcymru.org | 01970 636959

EIDCymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54090